# Aur Arts Award Uned 2
# Rhan C: Rheoli'r prosiect

arts award
arwain y celfyddydau yn effeithiol

Diben y daflen waith hon yw eich helpu i reoli effeithiolrwydd eich prosiect a chofnodi tystiolaeth o hyn.

Cofiwch: Mae angen i chi gasglu tystiolaeth ynglŷn â sut ydych chi'n darparu'r prosiect wrth i chi fynd yn eich blaen (e.e. lluniau, recordiadau, nodiadau dyddiadur neu gyfarfod)

Sut ydych chi'n cadw log tystiolaeth o'ch prosiect? Gallech gadw dyddiadur, recordiadau, lluniau anodedig, deunyddiau wedi'u hargraffu, manylion cyfarfodydd a thrafodaethau etc.

Isod ceir rhestr o gwestiynau y gallech ofyn i chi'ch hun ar bwyntiau rheolaidd yn ystod y prosiect i gofnodi eich cynnydd. Argraffwch sawl copi o'r daflen hon a defnyddiwch gymaint ag sydd eu hangen arnoch.

Dyddiad myfyrio:

Sut mae eich sgiliau arwain wedi datblygu hyd yn hyn? Ymhle ydych chi wedi defnyddio eich sgiliau arwain?

A ydych chi wedi adolygu cynnydd y prosiect yn erbyn eich cynllun gwreiddiol? A ydych chi wedi gorfod gwneud unrhyw newidiadau?

A ydych chi wedi ysbrydoli a chymell eraill yn eich prosiect? Sut ydych chi'n gweithio gydag eraill ac yn eu cefnogi?

Sut ydych chi'n cyfathrebu'n glir ac effeithiol ag eraill? Pa sgiliau cyfathrebu ydych chi wedi'u defnyddio/datblygu?

Pa faterion a heriau oedd rhaid i chi ddelio â nhw? Sut wnaethoch chi ddelio â'r rhain?

Sut ydych chi wedi casglu adborth gan eraill am y prosiect a'ch galluoedd arwain creadigol hyd yn hyn?

TRINITY COLLEGE LONDON

ARTS COUNCIL ENGLAND